GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales








Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Rhaglen Mesur Plant

## Adroddiad 2012/13

**Awdur**

**Linda Bailey** Ymgynghorwraig Iechyd y Cyhoedd / Cudd-wybodaeth Iechyd

**Tynnu data** Louise Richards (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

**Dadansoddi data** Holly Walsh (Arweinydd y dadansoddi), Mari Jones, Leon May, Arthur Duncan-Jones, Rhys Powell, Ioan Francis



**Cydnabyddiaethau**

Diolch yn fawr i'r teuluoedd a'r plant a gymerodd ran yn y Rhaglen ac i'r staff yn y Byrddau Iechyd sydd wedi cefnogi'r Rhaglen ar draws Cymru.

Diolch i Dr. Judith Greenacre, Dr. Ciaran Humphreys, Dr. Dyfed Huws, Dr. Teri Knight a Nathan Lester yn Is-adran Gwybodaeth Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru am y cyngor wrth ddrafftio'r adroddiad hwn. Diolch hefyd i staff y Rhaglen Mesur Plant – Ros Causey, Helen Crowther a Maggie Grayson.

**Manylion cyhoeddi**

Teitl: Adroddiad Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/13
Cyhoeddwr: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dyddiad: Gorffennaf 2014
ISBN: 978-0-9928835-4-6



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhaglen Mesur Plant
Ffôn 02920 827 630
Ebost: rhaglenmesurplant@cymru.nhs.uk.
Gwefan: www.iechydcyhoedduscymru.org/mesurplant



© 2014 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a geir yn y ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw cyhyd â'i bod yn gywir ac na chaiff ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid rhoi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae hawlfraint y drefn argraffyddol, y dyluniad a'r trefniant yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Rhagair



Bod dros bwysau ac yn ordew yw un o brif beryglon disgwyliad oes byrrach ymysg oedolion yng Nghymru. Mae gordewdra hefyd yn fygythiad i iechyd plant. Er enghraifft mae mwy o blant yn cael diagnosis o ddiabetes math 2 yn iau oherwydd gordewdra. Yn ogystal â chanlyniadau corfforol, gall achosi trallod emosiynol sylweddol i blant sy'n cael eu heffeithio. Y newyddion da yw bod y rhan fwyaf o'r plant a fesurwyd yn Rhaglen Mesur Plant Cymru â phwysau iach. Ac er ei bod yn rhy gynnar yn oes y rhaglen i nodi unrhyw dueddiadau parhaus, cafwyd gostyngiad bach yn nifer yr achosion o blant blwyddyn derbyn sydd dros bwysau ac yn ordew rhwng 2011/12 a 2012/13.

Er bod gan ymyriadau unigol swyddogaeth yn cefnogi plant i gyrraedd pwysau iach, y camau lluosog a gymerir ar lefel gymdeithasol sy'n cael yr effaith fwyaf. Cafwyd buddsoddiad eisoes yng Nghymru mewn mesurau wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â her gordewdra. Mae'r rhain yn cynnwys y Bil Teithio Egnïol a Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn ogystal â rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Newid am Oes. Dylai'r Rhaglen Mesur Plant, mewn amser, allu nodi a yw'r mesurau hyn yn atal y cynnydd mewn gordewdra ymysg plant.

Mae Rhaglen Mesur Plant Cymru yn rhaglen wyliadwriaeth flynyddol. Yn ogystal â nifer yr achosion o fod dros bwysau ac yn ordew, mae'r rhaglen hefyd yn nodi nifer fach o blant sydd o dan bwysau neu nad ydynt mor dal â'r disgwyl. Dros amser, wrth i fwy o wybodaeth gael ei chasglu, bydd yn datgelu darlun o'r tueddiadau mewn twf plant ac yn llywio cynlluniau i fynd i'r afael â'r mater.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl deuluoedd yng Nghymru sydd wedi galluogi eu plant i fod yn rhan o'r rhaglen ac i'r staff yn y Byrddau Iechyd sydd wedi cefnogi'r rhaglen.



**Yr Athro Peter Bradley**

*Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd y Cyhoedd*

*Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Ffigurau** | | **3** |
| **Byrfoddau** | | **4** |
| **1** | **Crynodeb** | **5** |
| | Negeseuon allweddol | 5 |
| **2** | **Cyflwyniad** | **7** |
| **3** | **Ynglŷn â'r Rhaglen** | **9** |
| 3.1 | Nodau | 9 |
| 3.2 | Safonau a Chanllawiau y Rhaglen Mesur Plant | 9 |
| 3.3 | Hanes y rhaglen yng Nghymru | 9 |
| 3.4 | Y posibilrwydd o ymestyn y rhaglen | 10 |
| 3.5 | Ffactorau sy'n effeithio ar y Rhaglen Mesur Plant yn 2012/13 | 10 |
| **4** | **Canlyniadau** | **11** |
| 4.1 | Cyfranogiad | 11 |
| 4.2 | Pwysau iach | 13 |
| 4.3 | Plant sydd dros bwysau ac yn ordew | 16 |
| 4.4 | Gordewdra | 19 |
| 4.5 | Plant sydd o dan bwysau | 20 |
| 4.6 | Cymhariaeth â 2011/12 | 20 |
| 4.7 | Rhyw | 22 |
| 4.8 | Ethnigrwydd | 23 |
| 4.9 | Taldra isel | 25 |
| 4.10 | Cymariaethau â Lloegr | 25 |
| **5** | **Dulliau** | **28** |
| 5.1 | Y broses fesur | 28 |
| 5.2 | BMI ymysg oedolion | 28 |
| 5.3 | Dosbarthu BMI plentyn | 28 |
| 5.4 | Pa gofnodion sydd wedi eu cynnwys? | 29 |
| 5.5 | Ataliad nifer fach | 29 |
| 5.6 | Cyfyngau hyder ac arwyddocâd ystadegol | 30 |
| **6** | **Casgliadau** | **31** |
| **Atodiad 1** | | **33** |
| | Sampl o siartiau canradd | 33 |
| **Atodiad 2** | | **35** |
| | Cofnodi ethnigrwydd | 35 |
| **Atodiad 3** | | **36** |
| | Tablau Cyfeirio | 36 |
| **Atodiad 4** | | **41** |
| | Dosbarthu taldra, pwysau a mynegai màs y corff | 41 |
| **Atodiad 5** | | **44** |
| | Mapiau ychwanegol | 44 |
| **Cyfeiriadau** | | **47** |

# Ffigurau

**Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/2013**


**Ffigur 1** Cyfran y plant 4 i 5 oed, Cymru ac awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/2013 11

**Ffigur 2** Cyfran y plant 4 i 5 oed, Cymru a byrddau iechyd sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/2013 12

**Ffigur 3** Cyfran y plant 4 i 5 oed, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/2013 13

**Ffigur 4** Map – cyfran y plant 4 i 5 oed sydd â phwysau iach, Cymru 14

**Ffigur 5** Cyfran y plant 4 i 5 oed, sydd â phwysau iach neu o dan bwysau, yn ôl awdurdod lleol 15

**Ffigur 6** Cyfran y plant 4 i 5 oed, sydd â phwysau iach neu o dan bwysau, yn ôl bwrdd iechyd 15

**Ffigur 7** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, yn ôl awdurdod lleol 16

**Ffigur 8** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, yn ôl bwrdd iechyd 17

**Ffigur 9** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew yn ôl cwintel amddifadedd 17

**Ffigur 10** Cyfran y merched 4/5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew yn ôl cwintel amddifadedd 18

**Ffigur 11** Cyfran y bechgyn 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew yn ôl cwintel amddifadedd 18

**Ffigur 12** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd yn ordew yn ôl awdurdod lleol 19

**Ffigur 13** Cyfran y plant 4/5 oed sydd yn ordew yn ôl bwrdd iechyd 19

**Ffigur 14** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd yn ordew yn ôl cwintel amddifadedd 20

**Ffigur 15** Plant 4 i 5 oed yn ôl categori pwysau, cymharu 2011/12 a 2012/13 20

**Ffigur 16** Cyfran y newid o ran bod dros bwysau ac yn ordew, a bod yn ordew, rhwng 2011/12 a 2012/13 yn y cwintelau mwyaf amddifad a lleiaf amddifad 21

**Ffigur 17** Categori pwysau ymysg merched 4 i 5 oed, canran yn ôl awdurdod lleol 22

**Ffigur 18** Categori pwysau ymysg bechgyn 4 i 5 oed, canran yn ôl awdurdod lleol 23

**Ffigur 19** Ethnigrwydd plant 4 i 5 oed sy'n cymryd rhan yn y rhaglen 24

**Ffigur 20** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew yn ôl ethnigrwydd 25

**Ffigur 21** Cyfranogiad plant 4 i 5 oed, Cymru, Lloegr a rhanbarthau Lloegr 26

**Ffigur 22** Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, rhanbarthau Cymru a Lloegr 26

**Ffigur 23** Cyfran y plant, bechgyn a merched 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru a Lloegr 27

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| BMI | Mynegai Màs y Corff |
| CDC | Canolfan Rheoli Clefydau (UDA) |
| CI | Cyfwng hyder |
| CMP | Rhaglen Mesur Plant Cymru |
| COSI | Menter Gwyliadwraeth Gordewdra mewn Plentyndod |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| IOTF | Tasglu Rhyngwladol Gordewdra |
| LSOA | Ardal gynnyrch ehangach is |
| MALlC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| NCCHD | Cronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol |
| NCMP | Rhaglen Mesur Plant Cenedlaethol Lloegr |
| NICE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol |
| NWIS | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| UK90 | Cyfeirnod Twf Prydain 1990 (gweler adran 5.3) |
| WHO | Sefydliad Iechyd y Byd |

# Crynodeb

Dyma ail adroddiad Rhaglen Mesur Plant Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau'r rhaglen mesuriadau plant a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 gyda phlant oedd yng ngrŵp oedran blwyddyn derbyn (pedair i bump oed).

## Negeseuon allweddol

- Cymerwyd mesuriadau 29,238 (84.3%) o'r 34,679 o blant oedd yn gymwys i gael eu cynnwys yn y rhaglen yn unol â safonau a chanllawiau'r Rhaglen Mesur Plant, ac mae dadansoddiad o'u mesuriadau felly wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Roedd 51% o'r plant yn fechgyn a 49% yn ferched.
- Roedd gan bron tri chwarter y plant a fesurwyd (73.2%) fynegai màs y corff (BMI) sy'n cael ei ystyried i fod yn bwysau iach.
- Roedd cyffredinolrwydd y rheiny oedd dros bwysau neu'n ordew yng Nghymru yn y flwyddyn derbyn (26%) yn sylweddol uwch nag yr oedd ar gyfer Lloegr (22%) a hefyd yn sylweddol uwch na'r rhanbarth yn Lloegr â'r cyffredinolrwydd uchaf - y gogledd ddwyrain, ar 24%.
- Roedd pwysau iach mwy cyffredin ymysg merched (73.9%) nag ymysg bechgyn (72.5%). Fodd bynnag roedd cyffredinolrwydd gordewdra ymysg merched (11.4%) a bechgyn (11.3%) yn debyg.
- Roedd 11.3% (3,316) o'r plant a fesurwyd yn ordew. Roedd cyffredinolrwydd gordewdra ar ei uchaf ym Merthyr Tudful (16.4%), a dros ddwbl yr awdurdod lleol â'r cyffredinolrwydd isaf – Sir Fynwy (7.5%).
- Ceir perthynas gref rhwng lefelau gordewdra ac amddifadedd – roedd 29.4% o'r plant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru dros bwysau neu yn ordew, o'i gymharu â 21.4% yn yr ardaloedd lleiaf amddifad. Ar gyfer gordewdra yn unig, roedd 13.6% o'r plant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ordew, o'u cymharu â 7.8% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- Er yr ymddengys bod cyffredinolrwydd gordewdra wedi gostwng o 12.5% yn 2011/12 i 11.3% yn 2012/13, dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus nes bod mwy o wybodaeth ar gyfer blynyddoedd i ddod yn cael ei darparu. Yr hyn sy'n peri pryder yw os yw'r wybodaeth yn adlewyrchu gostyngiad gwirioneddol mewn cyffredinolrwydd, yna ymddengys bod y gostyngiad yn fwy yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru (o 9.4% i 7.8%) na'r gostyngiad yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (o 14.3% i 13.6%), ac felly mae'r bwlch absoliwt rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi cynyddu o 4.9% yn 2011/12 i 5.8% yn 2012/13.
- Eleni yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r Rhaglen Mesur Plant wedi ystyried ethnigrwydd plant mewn perthynas â'u BMI. Roedd ethnigrwydd bron 90% o blant ar gael. Mae cyffredinolrwydd uchaf bod dros bwysau a gordewdra yn y flwyddyn derbyn yng Nghymru ymysg plant o darddiad du (34.4%), a'r isaf ymysg plant o darddiad Asiaidd (23%). Fodd bynnag, roedd nifer y plant o darddiad ethnig ar wahân i wyn a gafodd eu mesur yn gymharol fach ar 1,768 neu 6% o gyfanswm y plant ar y rhaglen. Ni chofnodwyd ethnigrwydd 10% o'r plant a gafodd eu mesur neu cafodd ei gofnodi i fod yn "anhysbys".





# 2

# Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad Rhaglen Mesur Plant Cymru a'r adroddiad cyntaf a wnaed yn unol â'r safonau a'r canllawiau a gytunwyd yn 2012. Dyma hefyd y flwyddyn gyntaf y mae'r data'n cael ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau'r Rhaglen Mesur Plant a gynhaliwyd gyda phlant oedd yng ngrŵp oedran blwyddyn derbyn (pedair i bump oed) yn ystod blwyddyn academaidd 2012 i 2013.

Cafodd yr adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2013, ei ddisgrifio fel adroddiad pontio gan nad oedd yr holl safonau, canllawiau, hyfforddiant na'r systemau casglu data neilltuol angenrheidiol wedi eu sefydlu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol honno. Caiff y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ei chyflwyno ar lefel genedlaethol, awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Nid yw'n bosibl cyflwyno gwybodaeth ar lefel is (er enghraifft yn ôl ysgol neu glwstwr ysgol) heb y perygl y bydd plant unigol yn cael eu hadnabod. Os yw nifer y plant mewn unrhyw gategori yn llai na phump, nid yw'r ffigurau wedi cael eu cynnwys yn y tablau cyfeirio yn Atodiad 3. Ar gyfer cyffredinolrwydd pwysau isel a bod o dan bwysau mae wedi bod yn amhosibl felly yn y rhan fwyaf o enghreifftiau i gyflwyno'r wybodaeth ar lefel genedlaethol neu fwrdd iechyd yn unig.

Mae'r adroddiad yn disgrifio cyffredinolrwydd:

- Pwysau iach
- Bod dros bwysau ac yn ordew
- Bod dros bwysau ond nid yn ordew
- Gordew
- O dan bwysau

ymysg plant a anwyd rhwng 1 Medi 2007 a 31 Awst 2008, sydd yn preswylio ac yn mynd i'r ysgol yng Nghymru. Mae'r categorïau yn seiliedig ar fynegai màs y corff (BMI) plant gan ystyried eu hoed a'u rhyw ar yr adeg y cawsant eu mesur. Ceir gwybodaeth hefyd am bwysau isel. Mae cyfyngau hyder (CI) o 95% wedi cael eu cyfrifo ar gyfer y canlyniadau a phan fydd cymariaethau'n cael eu gwneud ac wedi cael eu disgrifio fel rhai 'sylweddol', mae hyn yn golygu nad yw'r cyfyngau hyder o 95% ar gyfer dwy gyfradd cyffredinolrwydd perthnasol yn gorgyffwrdd. Ceir esboniad llawn o gyfyngau hyder yn ogystal ag esboniadau eraill am y dulliau a ddefnyddir yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

Mae'r Rhaglen Mesur Plant yn rhaglen wyliadwriaeth. Nid yw canlyniadau plentyn unigol yn cael eu rhoi i rieni fel mater o drefn oni bai eu bod yn gwneud cais amdanynt. Fodd bynnag, disgwylir ac anogir staff sy'n gysylltiedig â chymryd mesuriadau plant i weithredu'n briodol os ydynt yn nodi pryderon. Y rhesymeg ar gyfer cyflwyno rhaglen wyliadwriaeth ar raddfa mor fawr yw darparu gwybodaeth gadarn am dwf plant yng Nghymru, ac ar ordewdra mewn plentyndod, sydd yn broblem gynyddol ar draws y byd. Bydd plant sydd o dan bwysau neu â thaldra bach hefyd yn cael eu nodi trwy'r rhaglen, a chymerir camau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae plant sydd yn ordew yn fwy tebygol o fod yn oedolion gordew ac mae'r tebygolrwydd o hyn yn cynyddu gydag oed, graddfa'r gordewdra ac a oes ganddynt rieni gordew[1]. Mae canlyniadau niweidiol yn sgil gordewdra mewn plentyndod i'r plant hynny sy'n cael eu heffeithio tra'u bod yn dal yn blant ond hefyd yn nes ymlaen mewn bywyd. Gall y canlyniadau fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'u hiechyd ond gall hefyd effeithio ar eu datblygiad seicolegol, cymdeithasol ac emosiynol. Gan fod patrymau ymddygiad yn ymwneud â bwyd yn cael eu sefydlu yn gynnar ym mywyd plentyn, cyn pump oed yn aml, mae'n bwysig nodi a mynd i'r afael â materion gyda rhieni a gofalwyr tra bod y plant yn dal yn ifanc.

Mae cyffredinolrwydd gordewdra mewn plentyndod yn bryder parhaus yng Nghymru sydd ag un o'r cyffredinolrwyddau uchaf yn Ewrop[2]. Yn ogystal â thebygolrwydd cynyddol o ordewdra ymysg oedolion a'r perygl uwch cysylltiedig o farwolaeth cyn pryd, cynnydd mewn morbidrwydd ac anabledd yn oedolion, nodir bod plant sydd yn ordew yn cael diagnosis yn llawer cynt o glefydau sy'n gysylltiedig â gordewdra, fel diabetes math 2. Mae oedolion sydd yn ordew mewn mwy o berygl o gael diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, clefyd yr iau, clefyd y galon a strôc, canser, clefyd anadlol, osteoarthritis ac anffrwythlondeb benywaidd[3]. Mae cost mynd i'r afael â gordewdra, i'r GIG a chymdeithas, yn sylweddol – nododd astudiaeth a gomisiynwyd gan Gynulliad Cymru yn 2011 fod costau gordewdra i GIG Cymru yn £73 miliwn[4].

# Ynglŷn â'r Rhaglen

3

## 3.1 Nodau

Cafodd y Rhaglen Mesur Plant ei sefydlu fel rhaglen wyliadwriaeth, â'r nod o roi darlun cywir o dwf plant yng Nghymru. Gellir defnyddio'r canlyniadau ar gyfer gwyliadwriaeth, cynllunio iechyd a gwasanaethau ataliol, at ddibenion ymchwil, monitro neu werthuso.

Nid rhaglen sgrinio ydyw, fodd bynnag, byddai disgwyl i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gwneud y mesuriadau sy'n nodi pryderon am dwf plentyn unigol ymateb i'r pryderon hynny yn unol â phrotocolau a llwybrau a gytunir yn lleol. Nid yw canlyniadau ar gyfer plentyn unigol yn cael eu rhoi i rieni fel mater o drefn oni bai eu bod yn gwneud cais amdanynt, neu fod y bwrdd iechyd lleol yn penderfynu eu darparu.

Yn yr ail flwyddyn lawn hon o'r Rhaglen Mesur Plant, gwnaed mesuriadau yn unol â'r Safonau[5] a'r Canllawiau[6] a gytunwyd gan Grŵp Llywio'r Rhaglen Mesur Plant a'r Bwrdd yn 2012. Mae'r Safonau a'r Canllawiau wedi eu dylunio i hwyluso ffordd safonedig o fesur plant fel bod y canlyniadau yn gadarn ac y gellir eu cymharu ar draws Cymru a thros amser.

## 3.2 Safonau a Chanllawiau y Rhaglen Mesur Plant

Mae Safonau a Chanllawiau y Rhaglen Mesur Plant ar gael ar y rhyngrwyd yn Gymraeg yma: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67941

Ac yn Saesneg: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/67795

Mae'r dogfennau yn nodi gwybodaeth ar gyfer timau iechyd lleol ynghylch sut y dylid gwneud mesuriadau, a'r ffordd y dylid cofnodi'r wybodaeth am y mesuriadau. Mae'r wybodaeth yn cynnwys canllawiau ar y cloriannau a'r stadiomedrau cywir (offer a ddefnyddir i fesur taldra yn gywir), a'r ffordd i ddefnyddio a chynnal a chadw'r offer. Ceir hefyd gwybodaeth am gyfrifo a dehongli mesuriadau BMI, hyfforddiant staff ac archwiliadau lleol. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael i staff a rhieni ar ffurf fideos yn Gymraeg a Saesneg ar safle Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y we. Ceir modiwl casglu gwybodaeth neilltuol ar y System Iechyd Plant Cymunedol.

Timau'r bwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am elfennau'r rhaglen sy'n cael eu cyflenwi'n lleol, fel pwyso a mesur plant, rhoi'r wybodaeth ar system gyfrifiadurol a rhoi adborth i rieni. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth am y rhaglen a'r cyfle i ddewis peidio cynnwys eu plant yn y rhaglen. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Rhaglen Mesur Plant yn gofyn am sicrwydd yn flynyddol bod timau iechyd plant lleol yn cydymffurfio â'r safonau a'r canllawiau y cytunwyd arnynt.

## 3.3 Hanes y rhaglen yng Nghymru

Dechreuwyd y Rhaglen Mesur Plant yng Nghymru yn 2011/12 ar ôl cyhoeddi astudiaeth ddichonoldeb yn 2009[7]. Mae'r rhaglen yn cynnwys yr holl blant yn y flwyddyn derbyn y mae eu rhieni heb ddewis peidio eu cynnwys. Cafodd adroddiad cyntaf y rhaglen[8]

ei chyhoeddi yng Ngorffennaf 2013, a chafodd ei disgrifio fel "blwyddyn bontio" i adlewyrchu'r ffaith nad oedd yr holl safonau a'r canllawiau yn eu lle pan ddechreuodd y mesuriadau. Mae'r safonau a'r canllawiau hyn bellach wedi eu sefydlu ac mae'r rhaglen wedi cael ei chynnal yn unol â nhw.

Cafodd y rhaglen ei sefydlu yn dilyn Cyfarwyddiadau[9] a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Daeth y Cyfarwyddiadau hyn i rym ym mis Awst 2011. Caiff y rhaglen ei llywodraethu gan Reoliadau Rhaglen Mesur Plant (Cymru)[10], a chaiff ei chydlynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chymorth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Caiff y rhaglen ei chyflenwi gan y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am oruchwylio, dadansoddi data ac adrodd.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o sefydlu'r Rhaglen Mesur Plant, cafodd Grŵp Llywio a Bwrdd eu sefydlu yn 2011. Roedd y ddau grŵp hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, addysg, Llywodraeth Cymru, y sector gwirfoddol a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Unwaith roedd y rhaglen wedi ei sefydlu ac ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cyntaf yng Ngorffennaf 2013, penderfynwyd y dylid llywodraethu'r rhaglen gan un grŵp ac mae Grŵp Cynghori newydd ar Fesur Plant yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r rhaglen.

### 3.4 Y posibilrwydd o ymestyn y rhaglen

Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gyda phlant yng ngrŵp oedran blwyddyn derbyn (pedair i bump oed). Cynhaliwyd cynllun peilot yn mesur plant ym Mlwyddyn 4 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud eto ynglŷn ag ymestyn y rhaglen i gynnwys Blwyddyn 4 yn genedlaethol.

Byddai ymestyn y rhaglen i Flwyddyn 4 yn hytrach nag unrhyw grŵp blwyddyn arall yn galluogi creu cymariaethau rhwng Cymru a gwledydd Ewropeaidd eraill sy'n cymryd rhan ym Menter Gwyliadwraeth Gordewdra mewn Plentyndod (COSI) Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Bydd dewis y grŵp oedran hwn hefyd yn lleihau'r canlyniadau'n cael eu heffeithio gan blant y mae aeddfedu yn effeithio ar eu twf. Bydd ymestyn y rhaglen i ail garfan o blant hefyd yn caniatáu ar gyfer cymariaethau hydredol, h.y. bydd yr un plant yn cael eu mesur ar ôl bwlch o bedair blynedd.

Yn 2015, rhagwelir y bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddi patrymau twf plant yn ôl dosbarthiad ardal ONS, h.y. archwilio a oes patrymau twf gwahanol rhwng plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol.

### 3.5 Ffactorau sy'n effeithio ar y Rhaglen Mesur Plant yn 2012/13

Mae tri phrif ffactor a allai fod wedi effeithio ar niferoedd y mesuriadau sydd wedi eu cynnwys yn y rhaglen eleni. Y rhain yw effaith yr achosion o'r frech goch yng Nghymru yn ystod Gwanwyn 2013; ar wasanaethau iechyd, cyflwyno modiwl newydd ar gyfer cofnodi mesuriadau ar gyfer y rhaglen ar y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (CCH2000); a mater penodol lleol yn ymwneud â mesuriadau ym Mhowys. Credir bod y ddau ffactor cyntaf wedi cael effaith ar allu staff yn yr holl Fyrddau Iechyd i gyflenwi elfennau o'r rhaglen yn unol â'r safonau a'r canllawiau ac ymddengys bod y gyfradd cyfranogiad wedi gostwng o 88.4% yn 2011/12 i 84.3% eleni. Am esboniad llawnach, gweler adran 4.1. Mae nifer gwirioneddol y plant yn y ddwy flynedd a gafodd eu mesur yn weddol debyg.

Mae'n anodd sefydlu a yw gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogiad yn cael effaith sylweddol ar ffigurau cyffredinolrwydd gordewdra. Fodd bynnag, mae gwaith a wnaed ar Raglen Mesur Plant Cenedlaethol Lloegr[11] dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu, er y gall newid mewn cyfraddau cyfranogiad arwain at amcangyfrif rhy isel yng nghyffredinolrwydd gordewdra ar gyfer plant ym Mlwyddyn 6 yn Lloegr (gan awgrymu bod plant â BMI uwch yn fwy tebygol o fod wedi dewis peidio cymryd rhan yn y grŵp blwyddyn hwnnw), cafodd effaith ddibwys ar ffigurau blwyddyn derbyn yn rhaglen Lloegr.

# 4 Canlyniadau

## 4.1 Cyfranogiad

Ystyriwyd bod 34,679 o blant yng Nghymru yn gymwys i gael eu cynnwys yn y Rhaglen Mesur Plant yn 2012/13 – hynny yw eu bod wedi eu geni rhwng 1 Medi 2007 a 31 Awst 2008, a'u bod yn preswylio ac yn mynd i'r ysgol yng Nghymru. O'r plant hynny, nid oedd 29,238 (84.3%) wedi dewis peidio cymryd rhan a chymerwyd mesuriadau dilys ganddynt sydd wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Mae rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i ddewis peidio gadael i'w plant gymryd rhan yn y Rhaglen Mesur Plant ac yn 2012/13, dewisodd gyfanswm o 286 o blant beidio cymryd rhan, ac nid oedd yn bosibl gwneud mesuriadau cywir ar 17 plentyn arall.
Yn 2011/12, dewisodd 497 o blant beidio cymryd rhan yn y rhaglen. Mae sawl rheswm posibl pam na ellir gwneud mesuriadau cywir, yn cynnwys plant yn methu sefyll heb gymorth ar yr offer mesur neu blant yn gwisgo castiau plastr.

**Ffigur 1 Cyfran y plant 4 i 5 oed, Cymru ac awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant, Cymru 2012/2013.**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Ym mlwyddyn pontio 2011/12, nodwyd bod 33,272 o blant cymwys a chymerodd 29,409 (88.4%) ran. Felly, er bod nifer debyg o fesuriadau wedi eu cynnwys ar gyfer bob un o’r blynyddoedd, ymddengys bod cyfran y plant cymwys ychydig yn is eleni ar 84.3%. Fodd bynnag, gan fod 2011/12 yn flwyddyn bontio a blwyddyn lawn gyntaf y rhaglen, gall fod rhai problemau wedi bod yn cyfrifo poblogaeth enwadur drwyadl ar gyfer y flwyddyn honno. Fe wnaeth absenoldeb modiwl Rhaglen Mesur Plant yn 2011/12 ar y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol, ynghyd â’r diffyg safon genedlaethol ar gyfer codau ysgol a ddefnyddir yn y gronfa ddata, gymhlethu’r dasg o sicrhau bod yr holl blant hynny (a dim ond y rheiny) mewn ysgolion yng Nghymru a oedd hefyd yn preswylio yng Nghymru, yn cael eu cynnwys.

Cynhelir cyfrifiad ysgolion bob blwyddyn yng Nghymru. Yn Ionawr 2013, cofnododd y cyfrifiad ysgolion fod 35,756 o blant yn y flwyddyn derbyn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae’r ffigur hwn yn cynnwys plant sy’n preswylio yn Lloegr ond sy’n mynd i’r ysgol yng Nghymru, ac ni fyddai mesuriadau’r plant hyn yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Mesur Plant. Gallai amseriad y cyfrifiad ysgolion a chynnwys y cyfrifiad ysgolion o blant sy’n preswylio yn Lloegr, yn rhannol, hefyd esbonio’r gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur.

Cafwyd problemau gyda chyfranogiad mewn rhai ardaloedd daearyddol. Fel y nodir yn Ffigur 1, cafwyd problem benodol gyda chyfranogiad ym Mhowys. Roedd tîm iechyd yr ysgol wedi gwneud mesuriadau gyda phlant Blwyddyn 1 (yn hytrach na’r flwyddyn derbyn) yn y flwyddyn bontio. Cafodd y rhain eu cynnwys y llynedd am fod 2011/12 yn flwyddyn bontio. Erbyn 2012/13, roedd y Safonau a’r Canllawiau wedi cael eu cymeradwyo a gwybodaeth amdanynt wedi cael eu lledaenu. Mae’r rhain yn galw am yr holl fesuriadau i gael eu gwneud yn y flwyddyn ysgol gywir, felly nid yw’r mesuriadau a gafwyd gan blant Blwyddyn 1 ym Medi 2013 ym Mhowys wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, bydd y tîm iechyd ym Mhowys yn cael adroddiad byr yn nodi eu canlyniadau llawn yn cynnwys mesuriadau Blwyddyn 1. Mae gwaith wedi cael ei wneud gan dîm iechyd yr ysgol ym Mhowys i sicrhau y bydd yr holl fesuriadau mewn blynyddoedd i ddod yn cael eu gwneud gyda phlant yn y flwyddyn derbyn.

**Ffigur 2 Cyfran y plant 4 i 5 oed, Cymru a byrddau iechyd sy’n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/2013**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Cafwyd problem yn cyflwyno modiwl Rhaglen Mesur Plant penodol i'r Gronfa Ddata ar gyfer Iechyd Plant Cymunedol – daeth i'r amlwg nad oedd yr holl staff yn y Byrddau Iechyd oedd yn gyfrifol am gynnwys data mesuriadau yn eu rhoi ar fodiwl y Rhaglen Mesur Plant. Mae hyn wedi cael ei unioni erbyn hyn ac mae'r staff i gyd yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio'r modiwl cywir.

Nododd staff o'r holl Fyrddau Iechyd eu bod wedi wynebu heriau yn bodloni gofynion y rhaglen oherwydd y baich gwaith cynyddol a achoswyd gan yr achosion o'r frech goch. Dechreuodd yr achosion hyn ym mis Ebrill yn Abertawe ond cafwyd achosion ar raddfa lai mewn mannau eraill o Gymru yn cynnwys Gogledd Cymru. Roedd effaith yr achosion o'r frech goch yn golygu:

- Bod mwy o blant nag arfer yn absennol o'r ysgol ar y diwrnodau yr oedd y mesuriadau'n cael eu cynnal.
- Roedd timau iechyd ysgolion yn ymwneud â chynnal rhaglenni imiwneiddio "dal i fyny", gan sicrhau bod pob plentyn wedi ei amddiffyn rhag y frech goch, gan arwain at ddiffyg amser i ailymweld ag ysgolion i fesur plant.
- Roedd y staff oedd yn gweithio ar gofnodion iechyd plant yn ymwneud â sicrhau bod data imiwneiddio yn gywir ac yn cynnal adroddiadau i adnabod plant oedd heb gael eu himiwneiddio. Roedd hyn yn golygu nad oedd ganddynt ddigon o amser i gynnal adroddiadau oedd eu hangen i nodi bylchau yn y rhaglen mesur plant.

Fel y gwelir o Ffigur 3, ni ellir gweld unrhyw batrwm o ran cyfranogiad yn ôl amddifadedd. Cymerodd tua'r un gyfran (84.5%) o blant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ran yn y rhaglen â chyfartaledd Cymru (84.3%).

## 4.2 Pwysau iach

Ceir esboniad llawn o'r ffordd y caiff plant eu dosbarthu yn ôl eu BMI yn adran 5. Yn fras, caiff plant eu dosbarthu fel isod:

- O dan bwysau: BMI o lai na, ond nid yn cynnwys, yr ail ganradd.
- Pwysau iach: BMI ar yr ail ganradd hyd at ond nid yn cynnwys yr 85ed canradd.
- Dros bwysau ond nid yn ordew: BMI ar yr 85ed canradd hyd at ac nid yn cynnwys y 95ed canradd.
- Gordew: 95ed canradd ac uwch.

Defnyddir trothwyon ychydig yn wahanol gan glinigwyr ac mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn adran 5 – 'Dosbarthu BMI plentyn'.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant (73.2%) sy'n mynychu blwyddyn derbyn ac yn byw yng Nghymru bwysau iach. Fodd bynnag, mae cyffredinolrwydd pwysau iach yn amrywio ar draws y wlad.

**Ffigur 3 Cyfran y plant 4 i 5 oed, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru 2012/2013**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Ar lefel is-genedlaethol, mae gwybodaeth am blant â phwysau iach yn cael ei chyfuno â gwybodaeth am blant sydd o dan bwysau pan fydd niferoedd union yn cael eu harddangos. Mae hyn er mwyn osgoi adnabod plant unigol sydd o dan bwysau am fod eu niferoedd yn fach iawn ar lefel bwrdd iechyd neu awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n bosibl rhoi gwybodaeth am gyffredinolrwydd (yn hytrach na niferoedd gwirioneddol) ar fap, fel yn Ffigur 4.

**Ffigur 4† Canran y plant sydd â phwysau iach, 2012/13, plant 4-5 oed**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014. Arolwg Ordnans 100044810

† Defnyddir union werthoedd i bennu'r ystodau, ac felly aelodaeth grwpiau o fewn mapiau. Fodd bynnag, yn yr eglurhad, dangosir yr ystodau hynny i un lle degol yn unig. Felly, er bod brig un ystod yn ymddangos fel pe bai'n gorgyffwrdd â gwaelod yr ystod nesaf yn yr eglurhad, gall pob gwerth union ond dod o fewn un ystod union unigol a grŵp.

## Ffigur 5 Cyfran y plant 4 i 5 oed, sydd â phwysau iach neu o dan bwysau, Rhaglen Mesur Plant, Cymru ac awdurdodau lleol, 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP

## Ffigur 6 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd â phwysau iach neu o dan bwysau, Cymru a byrddau iechyd, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Mae Ffigurau 5 a 6 yn dangos y wybodaeth ar lefel awdurdod lleol a bwrdd iechyd ar gyfer plant â BMI wedi ei ddosbarthu fel pwysau iach neu o dan bwysau.

Fel y nodir yn adran 4.1 roedd cyfranogiad plant blwyddyn derbyn ym Mhowys yn is nag ardaloedd eraill (cafodd 42% o'r plant cymwys eu mesur). Mae cyffredinolrwydd plant â phwysau iach neu o dan bwysau ym Mhowys ar lefel Bwrdd Iechyd yn ymddangos yn uchel yn Ffigur 6, fodd bynnag mae'r canran hwn yn seiliedig ar nifer fach y mesuriadau ac mae'r cyfwng hyder yn eang. Gallai cyffredinolrwydd ym Mhowys felly fod yr un peth, yn debyg neu'n is nag unrhyw un o'r byrddau iechyd eraill ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

## 4.3 Plant sydd dros bwysau ac yn ordew

Ystyrir bod gan y rhan fwyaf o blant (73.2%) yng Nghymru a gafodd eu mesur bwysau iach. Fodd bynnag, roedd 26.2% o blant a gafodd eu mesur yn 2012/13 yng Nghymru naill ai dros bwysau neu yn ordew. Mae'r gyfran hon yn amrywio yn ôl awdurdod lleol (ffigur 7), bwrdd iechyd (ffigur 8) a lefelau amddifadedd ar gyfer yr ardal lle mae'r plant yn byw (Ffigur 9). Mewn awdurdodau lleol mwy cefnog, roedd cyffredinolrwydd yn is yn gyffredinol. Sir Fynwy oedd â'r cyffredinolrwydd isaf, sef 20.6%, fodd bynnag roedd yn cyrraedd bron 34% yn ardal fwy difreintiedig Merthyr Tudful.

Roedd y carfannau o blant a gafodd eu mesur yn Sir Fynwy a Merthyr Tudful yn eithaf bach, 652 o blant ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 3,737 o blant yng Nghaerdydd, yr ardal â'r nifer fwyaf o blant yn cymryd rhan. Ond hyd yn oed gyda chafeat yn ymwneud â niferoedd llai fel y gwelir yn Ffigur 7, mae'r cyfwng hyder yn awgrymu bod cyffredinolrwydd plant sydd dros bwysau ac yn ordew ym Merthyr Tudful ymhell uwchlaw, ac yn Sir Fynwy ymhell islaw, cyfartaledd Cymru. Mae hyn yn dal yn golygu bod pob ardal yng Nghymru yn gweld lefelau sylweddol o fod dros bwysau neu'n ordew mewn plentyndod, gyda'r baich yn fwy hyd yn oed mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae'r wybodaeth yn Ffigur 7 hefyd ar gael mewn map yn Atodiad 5.

**Ffigur 7 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru ac awdurdodau lleol, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

**Ffigur 8 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru a byrddau iechyd, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

**Ffigur 9 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

### 4.3.1 Plant sydd dros bwysau neu'n ordew yn ôl lefel amddifadedd

Ceir cyffredinolrwydd plant sydd dros bwysau ac yn ordew yng ngrŵp oedran y flwyddyn derbyn yn ôl bwrdd iechyd ac awdurdod lleol preswyl yn yr adran flaenorol. Mae'n hysbys bod cyffredinolrwydd gordewdra a chyffredinolrwydd bod dros bwysau yn uwch mewn oedolion a phlant sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ac mae ffigurau 9, 10 ac 11 yn rhoi cyffredinolrwydd y rheiny sydd 'dros bwysau neu'n ordew' yn ôl cwintel amddifadedd ar gyfer pob plentyn ac ar gyfer merched a bechgyn yng Nghymru.

Caiff amddifadedd ei asesu gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). MALlC yw mesur swyddogol amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Caiff y mynegai hwn ei lunio gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion i neilltuo safle i bob un o'r 1,896 o ardaloedd cynnyrch ehangach is (LSOA) yng Nghymru. Mae LSOA yn ardal ddaearyddol a all amrywio o ran maint daearyddol ond mae pob LSOA yn cynnwys tua 1500 o bobl wedi eu cofrestru i fod yn byw yn yr ardal honno. Yn 2011, dim ond Ceredigion a Sir Fynwy oedd heb unrhyw LSOA yn y 10% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yr awdurdod lleol mwyaf difreintiedig oedd Merthyr Tudful, gyda chwarter ei LSOA yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, wedi ei ddilyn gan Blaenau Gwent (23.4%) a Rhondda Cynon Taf (17.8%)[12]. Fodd bynnag, ceir pocedi o amddifadedd ar draws Cymru, a gorllewin y Rhyl yw'r LSOA mwyaf difreintiedig.

### Ffigur 10 Cyfran y merched 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

### Ffigur 11 Cyfran y bechgyn 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

## 4.4 Gordewdra

Roedd gan 11.3% o blant yng Nghymru BMI oedd wedi ei ddosbarthu i fod yn ordew. Unwaith eto, mae cyffredinolrwydd yn amrywio yn ôl awdurdod lleol (Ffigur 12), bwrdd iechyd (Ffigur 13) a lefel amddifadedd (Ffigur 14). Mae lefelau gordewdra yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym Merthyr Tudful, Caerffili a Rhondda Cynon Taf, ac yn sylweddol is yn Sir Fynwy, a hefyd yng Nghonwy a Bro Morgannwg.

**Ffigur 12 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd yn ordew, Cymru ac awdurdodau lleol, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Mae'r wybodaeth yn Ffigur 12 hefyd ar gael fel map yn Atodiad 5.

**Ffigur 13 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd yn ordew, Cymru a byrddau iechyd, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Fel cyffredinolrwydd bod dros bwysau ac yn ordew wedi eu cyfuno, mae gordewdra yn gysylltiedig ag amddifadedd (Ffigur 14). Cyffredinolrwydd gordewdra mewn plant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yw 13.6, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 11.3%, a 7.8% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae cyffredinolrwydd gordewdra yn ôl cwintel amddifadedd yn debyg iawn mewn bechgyn a merched ac mae'r ffigurau ar gael yn Atodiad 3.

**Ffigur 14 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd yn ordew, cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

## 4.5 Plant sydd o dan bwysau

Oherwydd y niferoedd bach sy'n gysylltiedig â hyn, mae categorïau bod o dan bwysau a phwysau iach wedi cael eu cyfuno pan fydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno ar lefel bwrdd iechyd neu awdurdod lleol. Mae hyn er mwyn osgoi'r posibilrwydd y bydd plant unigol yr ystyrir eu bod o dan bwysau'n cael eu hadnabod. Roedd cyffredinolrwydd plant o dan bwysau yn 0.6% ar draws Cymru, ond yn 0.7% ymysg bechgyn a 0.5% ymysg merched, fodd bynnag nid oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol. Cyffredinolrwydd uchaf plant o dan bwysau oedd 1.5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Nid yw'n glir pam y mae hyn yn wir ond dyma hefyd yr ardal â'r boblogaeth fwyaf o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yng Nghymru ac mae'n bosibl bod hyn wedi effeithio ar y canlyniad hwn. Ceir mwy o wybodaeth am amrywiadau yn ôl tarddiad ethnig yn adran 4.8.

## 4.6 Cymhariaeth â 2011/12

Mae gwybodaeth ar gael bellach ar gyfer Rhaglen Mesur Plant am ddwy flynedd yn olynol. (Ffigur 15). Dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau nes bod data ar gyfer mwy o flynyddoedd yn dod i'r amlwg.

**Ffigur 15 Plant 4 i 5 oed yn ôl categori pwysau, Rhaglen Mesur Plant Cymru, cymharu 2011/12 a 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, roedd 26.2% o'r plant a fesurwyd yn 2012/13 dros bwysau neu'n ordew. Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol (28.2% yn 2011/12) ac ymddengys bod hyn yn arwyddocaol. Fodd bynnag, dylid trin y gostyngiad mewn cyffredinolrwydd yn ofalus nes bod data ar gyfer blynyddoedd i ddod yn ymddangos. Dim ond pan fydd sawl blwyddyn o ddata ar gael y bydd yn bosibl nodi unrhyw dueddiadau cyson.

Ymddengys bod gostyngiad wedi bod yng nghyffredinolrwydd cyffredinol gordewdra a bod dros bwysau ac yn ordew ym mhob grŵp amddifadedd. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y bwlch absoliwt (Ffigur 16) mewn cyffredinolrwydd gordewdra rhwng ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig Cymru wedi cynyddu 0.9% (o 4.9% i 5.8%), ac ar gyfer y rheiny sydd dros bwysau neu'n ordew o 1.7% (o 6.3% i 8.0%), yn peri pryder. Felly ymddengys bod cyffredinolrwydd gordewdra yn unig a 'bod dros bwysau ac yn ordew' wedi gostwng yn gyflymach mewn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf, ac ymddengys bod yr olaf yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 16 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, ac yn ordew, yn ôl y pumedau mwyaf a lleiaf difreintiedig, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2011/12 a 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

## 4.7 Rhyw

Er yr ymddengys bod gwahaniaeth yng nghyffredinolrwydd ‘bod dros bwysau neu’n ordew’ rhwng bechgyn a merched, gyda chyffredinolrwydd ymysg merched yn is (25.6%) na bechgyn (26.8%) nid yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ar lefel genedlaethol.

Mae Ffigurau 17 a 18 yn dangos y gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol ar gyfer pwysau iach, bod dros bwysau a gordewdra. Roedd cyffredinolrwydd ar gyfer pob categori, ar bob lefel (awdurdod lleol, bwrdd iechyd a chwintel amddifadedd) ar gyfer bechgyn a merched yn gymharol debyg. Yr eithriad yw bod bechgyn yn llawer mwy tebygol na merched o ddod o fewn y categori ‘dros bwysau ond nid yn ordew’ fodd bynnag mae hyn ond yn arwyddocaol ar lefel Cymru gyfan.

**Ffigur 17 Categori pwysau ymysg mercherd 4 i 5 oed, canran yn ôl awdurdod lleol, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

**Ffigur 18 Categori pwysau ymysg bechgyn 4 i 5 oed, canran yn ôl awdurdod lleol, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

## 4.8 Ethnigrwydd

Eleni mae dadansoddiad o dwf plant yn ôl ethnigrwydd ar gael. Dylid ystyried y ffigurau hyn gyda rhywfaint o ofal am nad yw cofnodion ethnigrwydd yn y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD) yn gyflawn – ni chafodd ethnigrwydd ychydig dros 10% o'r plant yn y grŵp oedran hwn eu cofnodi neu cawsant eu cofnodi i fod yn anhysbys. Nifer y plant â tharddiad ethnig ar wahân i wyn oedd 1,768 (6%).

Mater arall yw bod ychydig o dan hanner (49%) y plant wedi cael eu hethnigrwydd wedi ei gofnodi yn ôl codau cyfrifiadurol a gafodd eu diddymu yn 2002 (er gwaetha'r ffaith eu bod wedi cael eu geni ar ôl 2002). Nid oedd yr hen godau hyn yn cynnwys côd ar gyfer plant o hil gymysg. Felly nid yw'n hysbys sut y cafodd plant o hil gymysg eu categoreiddio cyn 2002, er mai'r disgwyliad yw y byddent wedi cael eu codio i'r dosbarthiad 'arall'. Mae'r rhain yn godau ar wahân ar gyfer plant o hil gymysg ar ôl 2002.

## Ffigur 19 Data ethnigrwydd o Raglen Mesur Plant Cymru, plant 4 i 5 oed, 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS)

Oherwydd niferoedd bach y plant o gefndir ethnig ar wahân i wyn, hyd yn oed ar lefel Cymru gyfan, mae'r 16 categori oedd ar gael wedi cael eu lleihau i bum categori ehangach (gweler Atodiad 2), ac mae categori ar gyfer anhysbys/heb ei gofnodi wedi cael ei gynnwys. Cafodd mesuriadau taldra a phwysau eu cofnodi i'r 0.1 cm a'r 0.1 kg agosaf yn y drefn honno er mwyn sefydlu mesuriad BMI cywir. Mae BMI yn ôl ethnigrwydd hefyd ond wedi cael ei ddosbarthu mewn dau gategori - iach neu o dan bwysau, a gordew neu dros bwysau. Nid yw'n bosibl cyflwyno gwybodaeth yn ôl ethnigrwydd ar blant sydd yn ordew ond heb fod dros bwysau neu i'r gwrthwyneb. Unwaith eto, mae hyn oherwydd nifer fach y plant sy'n gysylltiedig. Mewn blynyddoedd i ddod bydd yn bosibl coladu'r wybodaeth ar gyfer sawl blwyddyn er mwyn rhoi gwybodaeth fanylach. Bydd plant sydd wedi eu dosbarthu'n wyn yn cynnwys plant sydd wedi eu geni y tu allan i'r DU, neu wedi eu geni i rieni o fannau eraill e.e. Ewrop.

Yn ôl cyfrifiad 2011[13] roedd pedwar y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru o gefndir Du neu Leiafrifoedd Ethnig (BME). Roedd hyn yn gynnydd ar 2.1% yn 2001. Roedd y mwyafrif o'r rheiny o gefndir BME oedd yn byw yng Nghymru o gefndir Asiaidd. Mae proffil oed pobl o gefndir BME yn amrywio, gyda chwech y cant o dan 25 oed, o'i gymharu â 30% o gyfanswm y boblogaeth o fewn y grŵp oedran hwn. Yn y cyfamser, roedd chwech y cant o'r boblogaeth oedd yn byw yng Nghymru wedi eu geni y tu allan i'r DU, gyda nifer fwy (2.4%) wedi eu geni yn Ewrop wedi ei ddilyn gan Asia (1.6%). Pwyleg yw'r un iaith fwyaf cyffredin yng Nghymru ar ôl Saesneg a'r Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru o gefndir BME yn byw yn y de ddwyrain naill ai yng Nghaerdydd neu yng Nghasnewydd. Mae nifer y plant o gefndir BME oedd yn gymwys i gymryd rhan yn y Rhaglen Mesur Plant yn fach (1,768) felly ni chaniateir rhoi gwybodaeth am eu BMI ar lefel bwrdd iechyd neu awdurdod lleol, am y gallai hyn arwain at adnabod plant unigol. Mae Ffigur 20 felly yn dangos y wybodaeth ar lefel Cymru gyfan. Gwelir bod cyffredinolrwydd uchaf bod dros bwysau ac yn ordew yn y flwyddyn derbyn yng Nghymru ymysg plant o darddiad du (34.4%) a'r nifer isaf ymysg plant o darddiad Asiaidd (23.0%). Fodd bynnag, dim ond cyffredinolrwydd plant o darddiad du sydd yn arwyddocaol wahanol i gyffredinolrwydd ar gyfer Cymru (26.2%).

## Ffigur 20 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, grwpiau ethnig, Rhaglen Mesur Plant Cymru, 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS))

Er bod y niferoedd yn fach, mae'r gyfran uwch o blant o darddiad du sydd wedi eu dosbarthu i fod yn ordew neu dros bwysau (gan ddefnyddio Cyfeirnod Twf UK90) yn debyg i wybodaeth o fannau eraill yn Lloegr[14]. Yn 2012/13, cafodd 29.9% o blant oedd wedi eu disgrifio fel Du neu Brydeinig Du yn y grŵp oedran blwyddyn derbyn yn Lloegr eu dosbarthu i fod dros bwysau neu'n ordew o'u cymharu â chyfartaledd Lloegr o 22%.

Ceir llawer o wybodaeth am y cysylltiadau rhwng gordewdra mewn plentyndod ac amddifadedd, ac mae plant o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw yn yr ardaloedd trefol mwy difreintiedig. Fodd bynnag, fel y trafodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn (Adran 5.3 – Dosbarthu BMI Plentyn), mae'r siartiau twf a ddefnyddir i gyfrifo BMI plentyn yn seiliedig ar sampl mawr o blant sydd o darddiad gwyn. Gallai plant o ethnigrwydd gwahanol dyfu ar gyfraddau gwahanol, a bod â dosbarthiadau gwahanol o ran braster y corff. Nid oes llawer o wybodaeth am y glasoed, er enghraifft[15] o ran bod pobl ifanc o darddiad ethnig o'r un lefel BMI yn cario llai o fraster y corff na'r boblogaeth yn gyffredinol.

### 4.9 Taldra isel

Canfuwyd bod 137 (0.5%) o'r plant a fesurwyd yng Nghymru yn 2012/13 â thaldra isel. Hynny yw, roedd eu taldra islaw canradd 0.4.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell[16] y dylid cyfeirio plant sy'n dechrau'r ysgol ar daldra o lai na'r canradd 0.4 i gael eu hasesu am fod yn fyr. Am nad oes llawer o blant o daldra isel, nid yw'n bosibl rhoi dadansoddiad yn ôl ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, mae cyffredinolrwydd taldra isel yn debyg ar draws Cymru. Nodwyd ychydig mwy o fechgyn (57%) na merched (43%), ond roedd mwy o fesuriadau ar gyfer bechgyn na merched yn y rhaglen ac nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol.

Bydd mwy o arweiniad yn cael ei roi i staff sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Mesur Plant yn ystod 2014 i'w hatgoffa o bwysigrwydd nodi plant â thaldra isel a llwybrau atgyfeirio priodol.

### 4.10 Cymariaethau â Lloegr

Dechreuodd rhaglen mesur plant cenedlaethol yn Lloegr yn 2006. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys mesuriadau plant a gymerwyd yn y flwyddyn derbyn ac ym Mlwyddyn 6. Cafodd cyfrifoldeb am y rhaglen hon ei throsglwyddo o'r GIG i awdurdodau lleol yn Lloegr yn Ebrill 2013. Cyn Ebrill 2013, y GIG oedd yn gyfrifol am y rhaglen oedd, ar y pryd, wedi ei rannu'n awdurdodau iechyd strategol, felly roedd y mesuriadau'n cael eu cyflwyno ar lefel awdurdod iechyd strategol. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer cymharu â thwf plentyn yn y flwyddyn derbyn yng Nghymru, am

fod gan awdurdodau iechyd strategol faint poblogaeth rhwng 2.5 miliwn ac 8 miliwn, tra bod poblogaeth Cymru tua 3,060,000. Ond efallai mai dyma'r flwyddyn olaf y bydd canlyniadau yn Lloegr ar gael ar y lefel hon am nad yw Awdurdodau Iechyd Strategol yn bodoli bellach.

Mae'r rhaglen yn Lloegr bellach ar ei seithfed flwyddyn, ac mae cyfranogiad wedi cynyddu dros y blynyddoedd hynny o 80% yn yr ail flwyddyn 2006/7 i dros 90% ym mhob rhanbarth nawr. Yn y flwyddyn gyntaf yn Lloegr, roedd cyfranogiad tua 48%.

Mae Ffigur 22 yn cymharu â rhanbarthau yn Lloegr. Canfuwyd bod 26% o blant a gafodd eu mesur yn y flwyddyn derbyn yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew. Mae hyn yn uwch nag unrhyw un o'r rhanbarthau yn Lloegr, lle mae cyffredinolrwydd yn amrywio o 20% yn rhanbarth y De Ddwyrain i 24% yn y Gogledd Ddwyrain, gyda chyfartaledd o 22% ar gyfer Lloegr.

**Ffigur 21 Cyfran y plant 4 i 5 oed sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru, Lloegr a rhanbarthau Lloegr, 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS) a data NCMP (HSCIC)

**Ffigur 22 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru, Lloegr a rhanbarthau Lloegr, Rhaglen Mesur Plant Cymru a'r Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (Lloegr), 2012/13**




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS) a data NCMP (HSCIC)

Mae Ffigur 23 yn cymharu cyffredinolrwydd gordewdra yn ôl rhyw ar draws Cymru a Lloegr. Mae cyffredinolrwydd gordewdra neu fod dros bwysau yn llawer uwch ymysg bechgyn a merched yng Nghymru na phlant yn Lloegr.

### Ffigur 23 Cyfran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru a Lloegr, Rhaglen Mesur Plant Cymru a'r Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (Lloegr), 2012/13




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CMP (NWIS) a data NCMP (HSCIC)

# Dulliau

5

Cymerwyd yr holl fesuriadau yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 yn unol â Safonau a Chanllawiau'r Rhaglen Mesur Plant. Cafodd mesuriadau taldra a phwysau eu cofnodi i'r 0.1 kg a'r 0.1 cm agosaf yn y drefn honno er mwyn mesur BMI yn gywir.

## 5.1 Y broses fesur

Mae'r rhan fwyaf o Dimau Iechyd Ysgolion wedi pwyso a mesur plant yn y flwyddyn derbyn fel mater o drefn ers blynyddoedd lawer. Trwy gyflwyno'r Rhaglen Mesur Plant, mae hyn bellach yn cael ei wneud mewn ffordd wedi ei safoni, gyda'r holl weithwyr iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant ac offer ychwanegol.

## 5.2 BMI ymysg oedolion

Unwaith y mae rhywun wedi dod yn oedolyn, mae'r trothwyon lle'r ystyrir eu bod â phwysau arferol, o dan neu dros bwysau neu'n ordew yn aros yr un peth. Cyfrifir BMI trwy rannu pwysau person mewn cilogramau yn ôl eu taldra mewn metrau sgwâr (kg/m2). Mae'r trothwyon BMI ar gyfer oedolion fel a ganlyn:

- Mae BMI o lai na 18.5 yn cael ei ystyried o dan bwysau
- Mae BMI o 18.5 a throsodd, ond llai na 25 yn cael ei ystyried yn bwysau arferol
- Mae BMI o 25 a throsodd, ond llai na 30 yn cael ei ystyried dros bwysau
- Mae BMI o 30 a throsodd, ond llai na 40 yn cael ei ystyried yn ordew
- Mae BMI o 40 neu fwy yn cael ei ystyried yn afiach o ordew

